



yr Athro

Lleihau Baich Gwaith Canllaw i Athrawon a Phenaethiaid

Y problem

Mi fydd bob un aelod o UCAC yn gwybod bod llwyth gwaith yn problem aruthrol.

Mae'r gofynion yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn; mae hi bron yn amhosib cwblhau popeth sydd ei angen; mae cydbwysedd bywyd/gwaith yn atgof pell.

A'r canlyniad yw straen, rhwystredigaeth, a theimlad o fethiant.

Cydweithio

Dros yr haf, daeth nifer o gyrff byd addysg Cymru - gan gynnwys UCAC - at ei gilydd i geisio mynd i'r afael â rhai agweddau o'r problem.

A'r canlyniad yw poster a phamffledi sy'n rhoi cyngor ar bethau mae angen eu gwneud, pethau nad oes angen eu gwneud, a chyngor ynghylch disgwyliadau Estyn.

Dylai fod copi o'r poster mewn man amlwg yn ystafell yr athrawon.

Hyder

Mae'r cyngor wedi'i gymeradwyo gan: Estyn, Llywodraeth Cymru, yr

Awdurdodau Lleol, y consortia rhanbarthol, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r undebau.

Felly gallwch fod yn hyderus wrth gwestiynu unrhyw geisiadau afresymol, a gallwch ddefnyddio'r cyngor er mwyn blaenoriaethu tasgau.

Help

A chofiwch fod Swyddogion Maes UCAC wrthlaw os oes angen unrhyw gyngor neu gefnogaeth arnoch.

Am ragor o wybodaeth:

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/leihau-baich-gwaith-athrawon-phenaethiaid>

Beth ddylai athrawon ei wneud?	Beth na ddylai athrawon ei wneud?	Beth yw barn Estyn?
Cynllunio ac addysgu		
Dylech... - ro'i'r statws cymesur y maent yn eu haeddu i gynlluniau gwersi. - sicrhau bod cynlluniau gwersi yn adlewyrchu cynnwys unrhyw gynlluniau gwaith perthnasol. - cynllunio ar y cyd ac yn effeithlon, gan ystyried anghenion eich disgyblion. - bod ag adnoddau a chynlluniau gwaith o ansawdd dda ac sy'n hawdd cael gafael ynddynt.	Peidiwch... - gwneud cynllunio dyddiol neu wythnosol gorfawr yn ddisgwyliad arferol ar draul cynlluniau gwaith wedi eu paratoi ar y cyd. - creu cynlluniau manwl sy'n troi'n ymarfer 'ticio blychau', ac sy'n dwyn amser oddi wrth gynllunio effeithiol. - cynllunio i fodloni sefydliadau allanol.	- Nid yw Estyn yn nodi sut i dylid amlinellu cynlluniau, faint o amser y dylent gymryd na'r manylion y dylid eu cynnwys. - Nid yw Estyn yn mynnu bod ysgolion yn darparu cynlluniau gwersi unigol na blaenorol ar gyfer arolygwyr nac yn ffafrio ffyrdd penodol o gynllunio nac addysgu. - Mae Estyn yn barnu gwersi ar sail ansawdd y dysgu yn bennaf. Mae'r ffocws ar ba mor dda y mae dysgwyr yn ymateb i'r addysgu. - Ni fydd arolygwyr Estyn yn barnu gwersi unigol gan ddefnyddio'r disgrifiadion barn ond byddant yn cynnal deialog broffesiynol gydag athrawon yn dilyn unrhyw arsylwadau gwersi uniongyrchol.

Ethol Ysgrifennydd Cyffredinol

Swydd etholedig yw un Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC – fel Ysgrifennydd Cyffredinol pob undeb llafur arall.

Mae hynny'n golygu ei bod yn swydd sy'n agored i aelodau'r undeb.

Mae'r cyfnod presennol o 5 mlynedd yn dod i ben ym mis Awst 2018, ac felly mae'n amser gwahodd ceisiadau am y swydd.

Pwy sy'n gymwys i sefyll?

Mae hawl gan unrhyw aelod o UCAC i sefyll ar gyfer ei (h)ethol yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr undeb os yw wedi bod yn aelod am gyfnod di-dor o dair blynedd, ar 1 Tachwedd 2017.

Bydd angen i unrhyw ymgeisydd gael cefnogaeth deg aelod arall o UCAC, sydd hefyd wedi bod yn aelodau am gyfnod di-dor o dair blynedd ar 1 Tachwedd 2017.

Beth yw'r broses a'r amserlen?

1 Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio

Cysylltwch â'r Swyddog Etholiad, sef Llywydd Cenedlaethol UCAC, i gael pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys manylion y swydd a'r broses ymgeisio: Swyddog Etholiad, UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU / llywydd@ucac.cymru

2 Gwneud cais am gymeradwyaeth y Cyngor Cenedlaethol

Dyddiad cau: 17.00, dydd Gwener, 8 Rhagfyr 2017



Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Phil Higginson
Is-Llywydd: Roger Vaughan
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cydllynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Cyflwyniadau gerbron y Cyngor Cenedlaethol: Dydd Gwener, 19 Ionawr 2018

Cam dewisol yw hwn; hynny yw, gall aelod sefyll etholiad heb wneud cais am gymeradwyaeth, neu o fod wedi gwneud cais ond heb dderbyn cymeradwyaeth.

Gall sawl ymgeisydd dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor Cenedlaethol.

Caiff aelodau'r undeb sydd â phleidlais yn yr etholiad eu hysbysu o ba ymgeiswyr sydd wedi derbyn cymeradwyaeth y Cyngor Cenedlaethol.

Bydd manylion am y broses yn y pecyn gwybodaeth y cyfeirir ato yng nghan 1 uchod.

3 Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i sefyll etholiad: 17.00, dydd Gwener, 16 Chwefror 2018

4 Etholiad yn cael ei gynnal gan archwilydd annibynnol: Mawrth-Ebrill 2018

Croeso!

Rydyn ni wedi croesawu dwy aelod o staff newydd i'r swyddfa dros y misoedd diwethaf, yn sgil ymddeoliad Delyth Jones a phenodiad Carys Mai Lloyd i dîm yr Aelod Seneddol newydd-etholedig dros Geredigion, Ben Lake.

Heledd Hughes yw ein Swyddog Aelodaeth a Chyllid newydd. Daw'n wreiddiol o Lanidloes, a chyn ymuno ag UCAC bu'n gweithio i Gyngor Sir Ceredigion, Mudiad Meithrin a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Ein Swyddog Cyfathrebu a Chynorthwy-ydd Personol newydd yw Nia Evans. Un o Bowys yw Nia hefyd, o ardal Aberhosan. O 'Y Gorau o Gymru' (cwmni gwyliau) yr ymunodd Nia ag UCAC, a chyn hynny bu'n gweithio i Imprint Design and Print yn y Drennewydd, a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Croeso cynnes iawn i'r ddwy!



Heledd Hughes,
Swyddog Aelodaeth a Chyllid



Nia Evans,
Swyddog Cyfathrebu a
Chynorthwy-ydd Personol

Eich Cyflog

Mae cyflogau athrawon, arweinwyr a staff addysg bellach ar gyfer 2017-18 yn dal i fod dan drafodaeth, ac mae UCAC yn dal i fod yn ymgyrchu dros godiad cyflog teg i'r proffesiwn. Dyma grynodeb o'r sefyllfa hyd yma:

Cyflogau o 1 Medi 2017	Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2017	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	UCAC ac undebau eraill
Prif ystod cyflog	Codiad o 2% i'r isafswm ac uchafswm statudol. Ysgolion unigol i benderfynu os/sut i weithredu unrhyw godiad i bawb arall yn unol â'u polisïau cyflog.	Yn cynghori Awdurdodau Lleol i argymhell bod ysgolion yn gweithredu 2% ar yr isafswm ac uchafswm statudol yn unig, ac 1% ar gyfer pawb arall.	Argymhell i ysgolion roi codiad cyflog o 2% i bob athro ar y brif ystod cyflog.
Pob ystod cyflog a lwfans arall (gan gynnwys grwpiau arweinyddiaeth)	Codiad o 1% i'r isafsymiau ac uchafsymiau. Ysgolion unigol i benderfynu os/sut i weithredu unrhyw godiad i bawb arall yn unol â'u polisïau cyflog.	Yn cynghori Awdurdodau Lleol i argymhell bod ysgolion yn gweithredu 1% i bawb.	Argymhell gweithredu 1% i bawb.

Mae safbwynt yr undebau ar y cyd yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil sy'n dangos bod cyflogau athrawon yn is na chyflogau graddedigion eraill wrth iddynt ymuno â'r proffesiwn, a bod problemau recriwtio i gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

Man cychwyn yn unig yw'r cais am 2% o godiad cyflog i bawb ar y brif ystod cyflog; mae UCAC yn brwydro dros godiad cyflog uwch i holl aelodau'r proffesiwn.

Rydym yn pwysu ar y Llywodraeth i ariannu'r codiad cyflog yn llawn, er mwyn osgoi lleihau'r gyllideb addysg.

Mae cyfarfod ar y cyd wedi'i drefnu gydag Arweinydd a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i drafod y mater ar 8 Tachwedd.

Yn y cyfamser, safbwynt yr undeb yw: **bod UCAC yn methu derbyn telerau polisïau cyflog yr Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd; bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol yn dilyn y cyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

Mae safbwynt yr undebau ar y cyd i'w weld mewn llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Justine Greening: https://www.ucac.cymru/images/Ymatebion/1707_JointResponse_STRB.pdf

Cyflogau Addysg Bellach

Codiad cyflog o 1% i bob aelod o staff a gynigwyd gan Golegau Cymru ar ran y Colegau Addysg Bellach, a hynny'n gynnar yn nhymor yr Haf.

Mae'r undebau llafur wrthi'n ymgyngori gyda'u haelodaeth ynghylch derbyn y cynnig hwn.

Un ystyriaeth bwysig yw sicrhau bod unrhyw godiad cyflog yn gyfatebol i'r hyn sy'n cael ei gynnig i athrawon ysgol, ac mae hynny wedi'i bwysleisio gan Gyngor Cenedlaethol UCAC.

Dywed Colegau Cymru fod y colegau eisoes yn gweithredu'r 1% o godiad cyflog ers mis Medi.

Mae'r trafodaethau'n parhau.

Adnoddau Cymraeg – llenwi'r bylchau

Yn dilyn cwynion niferus gan aelodau, mae UCAC wedi bod yn gweithio'n galed dros y pum mis diwethaf i geisio mynd i'r afael â rhai o'r bylchau o ran adnoddau Cymraeg i gyd-fynd â chymwysterau.

O ganlyniad i gais am wybodaeth gan aelodau, daeth i'r amlwg bod bylchau mewn tua 50 o feysydd (15 pwnc TGAU, 15 pwnc Uwch Gyfrannol, 11 pwnc Safon Uwch, a 7 maes/cymhwyster arall).

Buom yn gohebu gyda Llywodraeth Cymru, CBAC a Chymwysterau Cymru, a chynhaliwyd cyfarfodydd adeiladol iawn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ble bu cyfle i fynd trwy'r rhestr gyfan o fylchau a nodwyd gan aelodau.

Dyma rai o'r canlyniadau positif:

- Llawer fawr o adnoddau digidol newydd wedi'u cyhoeddi mewn ystod eang o bynciau; gallwch chwilio am eich pynciau chi fan hyn: <http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceBySubject.aspx>

Mae gwybodaeth am adnoddau lechyd a Gofal Cymdeithasol fan hyn: <http://gofal.colegacymru.ac.uk/cy/>
- Gwahoddiad am awgrymiadau am adnoddau fyddai'n ddefnyddiol mewn meysydd ble mae prinder ar hyn o bryd; anfonwch eich awgrymiadau at adnoddacymraeg@cymru.llyw

- Gweithdrefnau yn eu lle i gyflymu'r broses o gyfieithu adnoddau ble mae'n rhaid aros am yr adnodd Saesneg yn gyntaf (Addysg Grefyddol yn enghraifft o hyn; bydd y cyhoeddwyd yn Lloegr yn anfon profienni at CBAC er mwyn dechrau ar y gwaith cyfieithu heb orfod aros nes bod y llyfr wedi dod o'r wasg cyn dechrau ar y gwaith)
- Cyn i lyfrau gael eu cyhoeddi, sicrhau bod modd i athrawon gael mynediad i ddrafft eithaf terfynol ar wefan ddiogel CBAC

Yn ogystal, cafwyd ymrwymiad y bydd unrhyw amserlen ar gyfer diwygio cymwysterau yn y dyfodol yn caniatáu digon o amser i gyhoeddi manylebau ac adnoddau yn y ddwy iaith flwyddyn ysgol gyfan cyn dechrau'u dysgu.

Wrth i'r newidiadau i'r cwricwlwm weithio'u ffordd drwy'r system addysg, bydd UCAC yn pwysu i sicrhau y perchir yr ymrwymiad pwysig hwn.

Rydym wedi anfon diweddariad ar e-bost i bob aelod sy'n gweithio yn y sector uwchradd ynghylch y meysydd hynny ble nodwyd bod bylchau. Os nad ydych chi wedi derbyn y wybodaeth, neu os oes gennych chi gwestiynau neu bryderon pellach, cysylltwch â rebecca@ucac.cymru

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer addysgu a dysgu? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu cymwysterau newydd.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad diderfyn, rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.


Dyma rai enghreifftiau o'r lluo o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4 – Drama - Theatr Gorfforol

Dyma adnodd all gynig ffyrdd i athrawon gyflwyno arddull Theatr Gorfforol i'w disgyblion. Ceir yma weithdai gan Marc Rees ac Eddie Ladd sy'n ymarferwyr blaengar o fewn y theatr yng Nghymru.

Cefnogir yr adnoddau ymarferol gan adnoddau ysgrifenedig a grëwyd gan rai o athrawon ac arholwr Drama fwyaf profiadol Cymru. Ariennir yr adnodd hwn gan Lywodraeth Cymru.



CA4 – Addysg Grefyddol – Sikhiaeth

Cyfes o adnoddau ar gyfer dysgwyr ac athrawon sy'n cefnogi cynnwys Uned 1a 2 (Sikhiaeth) ar fanyleb TGAU CBAC.



CA4 – Hanes – Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw

Adnodd i gefnogi addysgu Uned 3: Astudiaethau Thematiig o bersectif hanesyddol eang, Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw. Mae'r adnodd yn bennaf at ddefnydd athrawon.



CA5 – Y Gyfraith

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cyfres o ffeiliau PowerPoint a cheir cyfres o awgrymiadau o ran gweithgareddau dysgu ac addysgu. Gall athrawon addasu'r rhain at eu gofynion eu hunain.



CA5 - Cymraeg Ail Iaith - Deunyddiau Asesu Synoptig

Mae'r adnodd hwn wedi cael ei greu i gynorthwyo athrawon a dysgwyr i baratoi ar gyfer y cwestiynau synoptig yn Uned 4 a 6 TAG Cymraeg Ail Iaith. Mae yma weithgareddau amrywiol ac mae modd eu llwytho i lawr a'u haddasu ond prif fwrdd yr adnodd yw sicrhau bod croesgyfeirio'n digwydd rhwng testunau gwahanol wrth i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau synoptig. Ariennir yr adnodd hwn gan Lywodraeth Cymru.



Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)

Nwyddau Newydd Atebol

Cynnig arbennig i ddarllenwyr YR ATHRO
20% oddi ar bopeth ar ein gwefan
gyda'r cod ATHRO17 tan 18.12.17